# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Croes Atti**

**CARTREF PRESWYL CROES ATTI**
**Rhodfa Tywysog Cymru**
**Sir y Fflint**
**CH6 5JU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

13 Rhagfyr 2022

20/12/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Croes Atti

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cyngor Sir y Fflint |
| Lleoedd cofrestredig | 31 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 6 Chwefror 2020 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Maent yn dweud bod y staff yn ofalgar ac yn gyfeillgar. Caiff staff gofal sydd wedi'u hyfforddi a'u fetio'n llawn eu tywys gan gynlluniau gofal ac asesiadau risg syml; mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi bod yn gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn ac maent yn gyfarwydd ag anghenion a dymuniadau'r bobl.

Mae'r cartref mewn cyflwr da, mae'r ystafelloedd gwely yn gynnes, yn lân, ac yn daclus ac maent yn cynnwys gwelyau a dodrefn cyfforddus. Mae arwyddion yn helpu'r bobl i ganfod eu ffordd o gwmpas. Mae'r bobl yn falch o'u hamgylchedd.

Mae'r darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda, gan ymweld â'r cartref yn rheolaidd. Caiff archwiliadau eu cynnal o brosesau, arferion y staff, a'r amgylchedd. Mae arolygon boddhad a chyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd yn canfod safbwyntiau'r bobl, a chynhelir cyfarfodydd â'r staff yn rheolaidd. Mae goruchwyliaeth gwella'r darparwr yn golygu ei fod yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda, pa welliannau a wnaed a ble y gall rhagor o welliannau wella'r gwasanaeth.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Maent yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a bod eu barn yn cael ei hystyried. Mae'n amlwg o'n harsylwadau bod y bobl mewn rheolaeth o'u gofal a'u cymorth a'r ffordd y cânt eu darparu, gan fod y staff gofal y sicrhau eu bod yn rhan o'r broses o gynllunio'r modd y caiff eu canlyniadau eu bodloni. Mae angen gwella'r ddarpariaeth o weithgareddau ysgogol bob dydd. Gall y bobl dreulio eu hamser yn unrhyw un o'r ardaloedd cymunedol sydd ar gael iddynt. Mae ardal awyr agored sydd mewn cyflwr da i bobl eistedd a mwynhau'r awyr iach.

Gofelir am lesiant corfforol meddyliol ac emosiynol y bobl gan staff gofal hyfforddedig sy'n ceisio cyngor proffesiynol os oes angen. Mae'r cynlluniau gofal personol yn hawdd eu dilyn ac yn cynnwys cyfarwyddyd manwl a chlir ar sut y dylid cyflawni pob agwedd ar y trefniadau byw beunyddiol. Cedwir cofnodion o ganlyniadau iechyd y bobl a chaiff eu cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol. Caiff y bobl eu cefnogi i gadw eu sgiliau symudedd ac i gynnal lefel o annibyniaeth.

Caiff y staff eu hyfforddi mewn amrywiaeth o feysydd i sicrhau arferion diogel gan gynnwys diogelu pobl sy'n agored i niwed a chânt eu tywys gan bolisïau a gweithdrefnau cysylltiedig. Mae'r staff yn nodi ei bod yn hawdd mynd at y rheolwr ac maent yn cadarnhau na fyddai ganddynt broblem yn rhoi gwybod i'r rheolwr pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am arferion yn y cartref. Caiff y staff sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd i'w cefnogi. Cynhelir proses recriwtio barhaus i fynd i'r afael â lefelau staffio. Mae trefniadau ar waith i sicrhau y caiff unrhyw benderfyniadau sy'n cyfyngu ar ryddid person eu gwneud er budd gorau'r person yn unig, gan ystyried y teulu a'r awdurdod diogelu lleol yn llawn.

Mae cynllun y llety yn sicrhau bod digon o le ar gyfer amrywiaeth o anghenion. Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn cartref pwrpasol y disgwylir iddo gael ei gwblhau o fewn y ddwy flynedd nesaf. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u haddurno a'u personoli'n dda, a chaiff y cartref ei gadw'n lân iawn ac mewn cyflwr da. Mae gan y darparwr oruchwyliaeth dda o'r hyn sy'n ofynnol i gynnal a gwella'r amgylchedd ac mae ganddo gynllun ysgrifenedig o waith y mae angen ei wneud.

## Gofal a Chymorth

Gall yr unigolion deimlo'n hyderus bod gan ddarparwyr y gwasanaeth gynllun cywir a chyfredol ynghylch sut y darperir gofal iddynt er mwyn diwallu eu hanghenion. Gwelsom fod y gwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i ddatblygu ers yr arolygiad diwethaf. Mae darparwr y gwasanaeth yn ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau a gwybodaeth, i sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion yr unigolyn a chyflawni ei ganlyniadau personol. Mae'n gwneud hyn drwy gasglu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau a chwrdd â'r bobl a'u cynrychiolwyr, yna mae'n sicrhau y caiff hyn ei adlewyrchu mewn cynlluniau personol a oedd yn cynnwys lefel dda o wybodaeth. Caiff y cynlluniau eu diweddaru'n rheolaidd ac maent yn nodi'r modd y caiff anghenion gofal a chymorth yr unigolion eu diwallu mewn modd sy'n syml i'r staff ei ddilyn. Dywedodd y staff wrthym fod y cynlluniau'n "*easy to understand*".

Mae'r bobl mewn rheolaeth o'u cymorth a'r modd y caiff ei ddarparu, a chânt eu trin â gofal, tosturi ac urddas. Dywedodd y staff gofal wrthym "*We have all the information we need in care plans".* Dywedodd y gweithwyr proffesiynol wrthym *"The standard of care is exceptional*" a bod *"each resident is treated as an individual and all their care needs are met to a high standard".* Mae'r bobl, yr awdurdod lleol (os yw'n gymwys) ac unrhyw gynrychiolwyr yn cyfrannu ac yn cytuno at y cynlluniau personol, a gwelsom fod pob cynllun yn cael ei lofnodi gan yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd. Mae gan y darparwr ddigon o bolisïau ar waith i dywys y staff a chânt eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â newidiadau i ddeddfwriaeth ac arferion.

Mae'r staff gofal yn deall anghenion y bobl y maent yn gofalu amdanynt ac maent yn gwneud hynny mewn modd amyneddgar a charedig. Gwnaethom arsylwi'r staff gofal yn ymgysylltu'n dda iawn â'r bobl maent yn gofalu amdanynt. Maent yn gyfarwydd â'i gilydd a gwelsom chwerthin a thynnu coes naturiol. Dywedodd un person wrthym "*It's like a family here*" a dywedodd y staff wrthym eu bod yn "*enjoy working and getting to know the people*" y maent yn eu cefnogi. Roedd yn ymddangos bod y bobl wedi setlo'n dda a'u bod yn teimlo'n gartrefol yn amgylchedd y gwasanaeth. Caiff gweithgareddau eu trefnu'n rheolaidd fel trên rhithwir â the prynhawn a theithiau allan, ond mae gweithgareddau o ddydd i ddydd yn faes y nodwyd gan y staff a'r rheolwyr bod angen ei wella er mwyn sicrhau bod y bobl yn gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt a'u bod yn cael cyfle i gymdeithas. Dywedodd y staff a'r rheolwyr wrthym eu bod yn awyddus i wella hyn.

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i ddiogelu'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i'w dilyn os bydd pryder o'r fath. Dengys cofnodion y caiff unrhyw gyfyngiadau ar ryddid y bobl eu gwneud er eu budd gorau a dim ond ar ôl cynnal cyfarfod â phawb dan sylw i sicrhau eu bod yn cytuno'n llawn.

## Yr Amgylchedd

Darperir y gwasanaeth mewn amgylchedd sydd â chyfleusterau a chyfarpar digonol sy'n helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom y bobl yn defnyddio cymhorthion symudedd ac yn cael rhyddid i symud o gwmpas y cartref fel y dymunant. Mae ardaloedd eistedd amrywiol ym mhob rhan o'r cartref, fel bod gan y bobl opsiynau o ran ble maent am eistedd boed hynny i wylio'r teledu neu i gymdeithasu ag eraill. Mae'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau wedi'u nodi'n glir sy'n ddefnyddiol wrth helpu'r bobl i gael ymdeimlad o le. Dywedodd y darparwr wrthym ei fod yn buddsoddi mewn cartref newydd pwrpasol gyda phroses adleoli wedi'i chynllunio o fewn y ddwy flynedd nesaf. Mae pob ystafell wely yn lân ac wedi'i haddurno'n dda; mae naws cartrefol a chyfforddus iddynt, ac maent mewn cyflwr da. Gwelsom fod cynllun cynnal a chadw a rhestr o waith sydd wedi'i gwblhau. Gwelsom fod y cartref yn lân heb unrhyw arogleuon drwg. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff domestig "*are always here cleaning*" a gwelsom dystiolaeth o hyn.  Mae'r bobl a'r staff yn hapus yn y cartref a dywedodd y staff wrthym "*People want to be here and choose to come here for respite care*" a dywedodd un person wrthym "*I wouldn't want to be anywhere else*".

Mae'r darparwr gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Mae diogelwch da ger y fynedfa, a gofynnwyd i ni lofnodi i mewn ac allan. Gwelsom asesiadau risg ar gyfer unigolion, gan gynnwys cynlluniau personol gadael mewn argyfwng. Cynhelir asesiadau o'r risg o gwympiadau, o niwed i'r croen o ganlyniad i friwiau pwyso, a'r defnydd o reiliau gwely a chaiff asesiadau o iechyd corfforol a phrofion sgrinio maeth y bobl eu cwblhau. Caiff cwympiadau eu cofnodi, eu monitro a'u gwerthuso er mwyn nodi themâu a sicrhau y gellir rheoli risg yn fwy effeithiol. Dengys cofnodion y cynhelir gwiriadau diogelwch fel mater o drefn mewn perthynas â thymheredd dŵr, cyfarpar tân a diogelwch tân. Cynhelir ymarferion tân bob chwe mis ynghyd â phrofion wythnosol ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Llwyddodd y cartref i ennill sgôr hylendid bwyd o 5 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef y sgôr uchaf posibl y gellir ei hennill.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae yna ganllaw ysgrifenedig; datganiad o ddiben; sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Ceir tystiolaeth o adolygiadau blynyddol, ac mae'r darparwr yn ymrwymedig i sicrhau bod copi cyfredol ar gael. Mae'r datganiad o ddiben yn darparu gwybodaeth glir er mwyn sicrhau bod y bobl yn gwybod sut i godi pryderon gyda'r darparwr a'r awdurdod lleol a chaiff ei ddarparu fel mater o drefn i'r holl bobl sy'n derbyn y gwasanaeth.

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu staff gofal addas sy'n meddu ar y wybodaeth i ddarparu'r gofal a'r cymorth sy'n ofynnol. Mae'r gwasanaeth yn ffodus bod ganddo staff ymrwymedig a gofalgar, gyda'r mwyafrif ohonynt wedi bod yn gweithio yn y cartref ers cryn amser; mae llawer wedi bod yno ers mwy na 10 mlynedd. Fodd bynnag, dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym fod recriwtio wedi bod yn her ar ôl y pandemig ynghyd ag absenoldeb oherwydd salwch. Clywsom fod proses recriwtio barhaus ar waith. Dywedodd yr holl staff wrthym fod angen gwella lefelau staffio a bod hyn yn dylanwadu ar y gweithgareddau a ddarperir o ddydd i ddydd. Clywsom pan fydd staff i ffwrdd o'r gwaith, bod "*everyone comes together*" a "*no one does without*". Dywedodd un gweithiwr proffesiynol wrthym *"Staffing levels were low but are now back to normal".* Mae adroddiad monitro'r Awdurdod Lleol yn nodi: "*the home is currently running under capacity; the staffing levels are correct for the number of residents*". Gwnaethom gadarnhau â'r staff ac mae'r cofnodion yn dangos bod canlyniadau'r bobl yn cael eu bodloni ac y gellir priodoli hyn i'r ffaith bod y staff yn gweithio mor galed fel tîm a bod y rheolwyr yn camu i'r adwy yn rheolaidd pan fydd angen. Dylid nodi bod recriwtio staff gofal cymdeithasol yn her genedlaethol ers y pandemig.

Mae'r staff yn gyfarwydd ag anghenion a dewisiadau'r rheini a gefnogir ganddynt ac â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Mae'r holl staff yn wybodus o ran sut i ddiwallu anghenion y bobl yn ddiogel ar ôl cwblhau hyfforddiant gorfodol ac ychwanegol mewn amrywiaeth o bynciau perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys arferion diogel gan gynnwys cymorth cyntaf, hylendid bwyd, symud a chodi a chario, diogelwch tân a gweinyddu meddyginiaeth yn ddiogel. Mae'r broses recriwtio'n ddiogel gan fod pob aelod o'r staff yn cael eu fetio cyn cael eu cyflogi.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli; eu bod yn teimlo eu bod yn callu mynd at yr Unigolyn Cyfrifol, y rheolwr a'r dirprwy reolwr a siarad yn rhydd â nhw am unrhyw faterion neu bryderon a allai fod ganddynt. Roedd bron bob aelod o'r staff wedi cael cyfarfod un i un rheolaidd yn ddiweddar â'i reolwr llinell er mwyn gwirio eu cynnydd, eu lles ac unrhyw bryderon a all fod ganddynt.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Rydym wedi rhoi gwybod i Gyngor Sir y Fflint fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â datblygu staff (rheoliad 36 (2) (d)) gan fod yn rhaid i'r staff gwblhau hyfforddiant sy'n briodol i'w rôl. Nid ydym wedi rhoi hysbysiad diffyg cydymffurfio y tro hwn am nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar adeg yr arolygiad ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth | Cyflawnwyd |
| 59 | Rydym wedi rhoi gwybod i Gyngor Sir y Fflint fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rheoli cofnodion (Rheoliad 59) am nad oedd y cofnodion a oedd yn cael eu cadw ar y safle yn gyfredol a bod y cofnodion manwl llawn yn cael eu cadw ym mhrif swyddfa'r darparwr. Nid ydym wedi rhoi hysbysiad diffyg cydymffurfio y tro hwn am nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar adeg yr arolygiad ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/01/2023